Saul yn dinistrio'r Amaleciaid

1 Samuel 15: 1-35

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	1 Samuel 15: 1-35		
1	Roedd Saul yn 30 oed pan ddaeth yn frenin. Galwodd y fyddin at ei gilydd i amddiffyn Israel yn erbyn y Philistiaid.		
2	Dyma Samuel yn dweud wrth Saul fod yr Arglwydd wedi penderfynu cosbi'r Amaleciaid am iddyn nhw wrthod gadael i bobl Israel basio pan oedden nhw ar ei ffordd o'r Aifft. Dwedodd yr Arglwydd, "Dinistriwch nhw'n llwyr, a llosgi eu heiddo. Peidiwch teimlo trueni drostyn nhw. Lladdwch nhw i gyd — yn ddynion a merched, plant a babis bach, gwartheg a defaid, camelod ag asynnod.'"		

3	Felly dyma Saul yn galw'r fyddin at ei gilydd a'i cyfri nhw yn Telaïm. Daeth 200,000 o filwyr traed a 10,000 o ddynion o Jwda.	
4	Anfonodd Saul neges at y Ceneaid, “Ewch i ffwrdd o'r ardal. Peidiwch aros gyda'r Amaleciaid, rhag i chi gael eich difa gyda nhw. Buoch chi'n garedig wrth bobl Israel pan oedden nhw'n dod o'r Aifft.” Felly dyma'r Ceneaid yn gadael yr Amaleciaid.	
5	Aeth Saul a'i fyddin i gyfeiriad y trefi lle roedd yr Amaleciaid yn byw, a chuddio yn y sychnant yn barod i ymosod.	
6	Yna dyma Saul yn ymosod ar yr Amaleciaid.	
7	Enillodd fyddin Saul y frwydr a chafodd yr Amaleciaid i gyd eu lladd â'r cleddyf.	

8	Ond, cafodd Agag, brenin yr Amaleciaid, ei ddal yn fyw. Yn lle ufuddhau i orchmynion yr Arglwydd penderfynodd Saul i beidio ei ladd.	
9	Dyma nhw hefyd yn cadw'r gorau o'r defaid a'r geifr, y gwartheg, y lloi, yr ŵyn ac unrhyw beth arall oedd o werth. Doedden nhw ddim am ladd yr anifeiliaid gorau, ond cafodd y rhai gwael a diwerth i gyd eu lladd.	
10	Yna dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Samuel, “Dw i'n sori mod i wedi gwneud Saul yn frenin. Mae e wedi troi cefn arna i, a dydy e ddim yn gwneud beth dw i'n ddweud.”	
11	Roedd Samuel wedi ypsetio'n lân, a bu'n crefu ar yr ARGLWYDD am y peth drwy'r nos.	
12	Yn gynnar iawn y bore wedyn aeth Samuel i weld Saul. Ond roedd Saul wedi mynd i dref Carmel i godi cofeb iddo'i hun yno, ac yna ymlaen i Gilgal.	

13	Pan ddaeth Samuel o hyd i Saul, dyma Saul yn dweud wrtho, “Dw i wedi gwneud popeth ddwedodd yr ARGLWYDD.” Ond dyma Samuel yn dweud, “Os felly, beth ydy sŵn y defaid a'r gwartheg yna dw i'n ei glywed?”	
14	Atebodd Saul, “Y milwyr wnaeth eu cymryd nhw oddi ar yr Amaleciaid. Maen nhw wedi cadw'r defaid a'r gwartheg gorau i'w haberthu i'r ARGLWYDD dy Dduw. Mae popeth arall wedi cael ei ddinistrio.” Ond roedd Samuel yn gwybod ei fod yn dweud celwydd.	
15	Mynnodd Saul ei fod wedi ufuddhau i orchmynion yr Arglwydd. Dwedodd wrth Samuel, “Dw i wedi gwneud beth ddwedodd yr ARGLWYDD! Es i ar yr ymgyrch fel roedd e wedi dweud. Dw i wedi dal y Brenin Agag ac wedi dinistrio'r Amaleciaid yn llwyr. Cymerodd y fyddin y defaid a'r gwartheg gorau i'w haberthu nhw i'r ARGLWYDD dy Dduw yma yn Gilgal!”	

16	Yna dyma Samuel yn dweud, “Mae gwrando yn well nag aberth; mae talu sylw yn well na brasder hyrddod. Mae gwrthryfela yn bechod, fel dablo mewn dewiniaeth, ac mae anufudd-dod mor ddrwg ac addoli eilunod. Am dy fod wedi gwrthod gwrando ar yr ARGLWYDD mae e wedi dy wrthod di fel brenin.” Dyma Saul yn cyfaddef i Samuel, “Dw i wedi pechu. Dw i wedi bod yn anufudd i'r ARGLWYDD a gwrthod gwrando arnat ti. Roedd gen i ofn y milwyr, a dyma fi'n gwneud beth oedden nhw eisiau."	
17	Wrth i Samuel droi i adael, dyma Saul yn gafael yn ymyl ei fantell, a dyma hi'n rhwygo. Dyma Samuel yn dweud wrtho, “Mae'r ARGLWYDD wedi rhwygo'r deyrnas oddi arnat ti heddiw, a'i rhoi hi i rywun arall gwell na ti." Fe laddodd Samuel y Brenin Agag wrth ei hacio i farwolaeth o flaen yr ARGLWYDD yn Gilgal.	
18	Wedyn aeth Samuel yn ôl i Rama, a Saul adre i Gibea. Wnaeth Samuel ddim gweld Saul byth wedyn.	
19	Cyfieithwyd www.beibl.net	Free Bible illustrations These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution Share-alike 3.0 unported licence. www.freebibleimages.org